# Cyngor Cymuned LLANBEDROG *Community Council*

## Cofnodion Cyfarfod 20/05/2019 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

| | | | |
|---|---|---|---|
| Thomas Victor Jones | Evan Glyn Thomas | Clair Russell Hughes | William Roger Jones |
| Iwan Hughes | William Penri Jones | Greta Hughes | Barbara Warren |
| Rhian Hughes-Jones (Clerc) | | | |

Bu i aelodau'r Cyngor Cymuned ymgynnull dan arweinid ficer Andrew Jones; i ddadorchuddio cofeb er cof am y rhai a collodd eu bywydau yn ystod rhyfeloedd byd a gwrthdrawiadau'r 20fed ganrif.










1. **<u>Ymddiheuriadau</u>**
   John Brinley Jones

2. **<u>Datgan Buddiant Ariannol neu Personol</u>**
   Dim

3. **<u>Cofnodion 29/04/2019</u>**
   Derbyn Cofnodion 25/03/2019 yn gywir gyda man newid ac wedi eu arwyddo.

4. **Unrhyw Fater Brys**
   - Llwybrau; Penderfynwyd ei fod yn amserol i ddechrau ar waith torri. Bu'r Clerc yn cysylltu gyda Pozzi yr ofyn iddo i ddechrau ar y gwaith yn llwybr Nant.
   - Teyrnged I John Harris; Cytunwyd y bydd trefnu rhywbeth i gofio am John Harris yn briodol.
   - Blodau; Cynigwyd gofyn i Victor a Jean gwneud y blodau eto eleni.
   - Hysbysfyrddau; Cytunwyd I ofyn i saer lleol gwneud y gwaith adnewyddu a newid y cloeau'r hysbysfyrddau.

5. **Etholiadau**

   Gan fod Greta Hughes wedi bod yn y gadair yn dilyn ymddiswyddiad Angela Russell nid yw eisiau parhau yn y gadair eleni. Mae Roger Jones yn cynnig (eilydd: Penri Jones) I Iwan Hughes cymryd y gadair. Mae'r cynnig yn llwyddiannus.

   Mae'r pwyllgor yn teimlo ei fod yn briodol i ohirio ethol is-gadeirydd gan nad oes unrhyw un sydd yn bresennol yn cynnig.

   Nid yw dyddiad cau ceisiadau am y sedd wag wedi pasio felly ei ohirio at gyfarfod mis Mehefin.

6. **Cae Chwarae**

   Bu i Glyn Thomas ar ran y Cyngor Cymuned gysylltu gydag Iwan Jones i ofyn iddo am bris fel mater o frys er gwneud y gwaith ffensio yn y Cae Chwarae cyn gynted â phosib. Nid yw hyn wedi digwydd eto, felly yn dilyn cyfarfod i drafod y gwaith bydd Glyn Thomas yn derbyn y pris a'I yrru I'e Clerc er ei yrru ymlaen i aelodau'r pwyllgor i benderfynu os yw'n rhesymol er mwyn mynd ymlaen a'r gwaith.

   Mae Barbara Warren yn adrodd yn ôl i'r Cyngor Cymuned yn dilyn cyfarfod cyhoeddus lle sefydlwyd Pwyllgor Cae Chwarae. Bydd Barbara Warren yn adrodd yn ôl i'r Cyngor Cymuned yn rheolaidd.

7. **Y Fynwent**

   Dim diweddariad

8. **Cofebion**

   Mae'r Clerc wedi llythyru Llanbedrog Headland Co, Cyngor Gwynedd a Chyfoeth Naturiol Cymru eto ond nid wedi derbyn ymateb. Mae Roger Jones yn cynnig (eilydd; Iwan Hughes) i'r Clerc yn dilyn hyn i fynnu wrth gysylltu gyda'r awdurdodau yma eto. Mae'r Clerc yn dal i edrych i mewn i wybodaeth am dir comin Tir y Cwmwd.

9. **Awdit**

   Mae'r Clerc wedi derbyn gobeithio ynglŷn â chyfrif banc y Cyngor Cymuned, bydd rhaid gweithredu ar hyn cyn y gellir mynd ymlaen hefo'r archwiliad mewnol.

10. **Arddangosfa gan Llyn Textile Crafts Group**

    Mae'r Cyngor Cymuned yn cytuno i roi hawl i Llyn Textile Crafts Group ddefnyddio'r llecyn tir ger yr eglwys yn y St Pedrog ar gyfer eu harddangosfa.

11. **Paneli apel Mynediad a Gwaharddiadau**

    Mae Cyngor Gwynedd yn chwilio am aelodau i ymuno a'r panel. Bu I'r Cyngor Cymuned benderfynu gwneud ceisiadau yn unigol os dymunir eistedd ar y panel.

# Cyngor Cymuned LLANBEDROG *Community Council*

## Cofnodion Cyfarfod 20/05/2019 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

**Ceisiadau Cynllunio**

**Dim**

**Taliadau wedi eu cymeradwyo**

| | |
|---|---|
| **Cyflog y clerc -** Rhian Hughes-Jones<br>Mai 2019 £333.33 | **£333.33** |
| **Victor a Jean Price** – Gwaith yn y fynewnt a cae chwarae | **£260.00** |
| **Ashley Hughes** – adnoddau cefnogol | **£126.38** |
| **Cyngor Gwynedd** – llenwi biniau halen | **£220.80** |
| **T.R. Jones** – gwaith ar postyn giat | **£190.00** |

**Taliadau wedi eu Gwneud**

Dim

**Taliadau wedi eu Derbyn**

Dim

**Gohebiaeth**

1. **Cyngor -** Dogfen
2. **Adran Cynllunio** - Arolwg cynghorau tref a chymuned Cymdeithas Prif Swyddogion Cynllunio Cymru
3. **Un Llais Cymru –** Hyfforddiant
4. **Un Llais Cymru -** Cynigion ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2019
5. **Arloesi Gwynedd Wledig** - Digwyddiad Arloesi Digidol

**Cais am gyfraniad**

1. **O Ddrws i Ddrws** - Cais i ariannu cynllun i ddanfon pobl i'r feddygfa

Clerc – Rhian Hughes-Jones • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •
07748 906 651 • Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA
Cadeirydd – Cadeirydd – Iwan Hughes • iwan.hughes2@btinternet.com • 07899 954 031•